

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Digwyddiad Cyfnewidfa Arfer Da - Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthyhych sut mae Cyfnewidfa Arfer Da (GPX) Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth a gesglir amdanoch pan fyddwch chi'n cofrestru a/neu fynychu digwyddiad GPX fel cynrychiolydd, hwylusydd neu gyfranogwr. Gell digwyddiadau gynnwys gweminarau neu seminarau dysgu ar y cyd a digwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli a gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i wneud y gwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys y GPX sy'n ceisio helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella drwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio.

Y deddfau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae'r GPX yn prosesu'ch data personol wrth ddarparu gwasanaethau dan adran 19 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Beth fyddwn yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth

Rydym yn casglu gwybodaeth gennych chi er mwyn i ni allu cynllunio a rheoli ein digwyddiadau ac yna hwyluso ac annog rhannu gwybodaeth ac arferion gorau rhwng cynrychiolwyr a chyfranogwyr.

Bydd gan y tîm GPX a, lle mae angen, aelodau staff eraill o Swyddfa Archwilio Cymru fynediad at y wybodaeth rydych chi'n ei darparu. Efallai y byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth am gynrychiolwyr gyda chyfranogwyr a hwyluswyr cyn y digwyddiad i gynorthwyo i gynllunio'r digwyddiad a chynnwys y digwyddiad.

Ar ôl y digwyddiad efallai y byddwn yn rhannu rhestr o gynrychiolwyr (gan gynnwys enw, rôl, sefydliad a chyfeiriad e-bost) i hwyluso cyfnewid gwybodaeth ac adnoddau. Efallai y byddwn yn defnyddio'r rhestr hon hefyd i hwyluso gweithrediad Treialon Coffi ar Hap lle gall unigolion gofrestru i gadw mewn cysylltiad â chynrychiolwyr eraill ar ôl y digwyddiad.

Os nad ydych chi am gael eich cynnwys ar y rhestr mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni cyn diwedd y digwyddiad.

Byddwn yn cadw'ch data personol am y cyfnodau a nodir yn ein Polisi Rheoli Dogfennau a Chofnodion a byddwn yn cadw eich data yn ddiogel yn unol â'n Polisi Diogelwch Gwybodaeth.

Cyflwyniadau, Ffotograffau, Recordio a Fideos

Rydym yn darlledu gweminarau byw i gynulleidfa ar-lein ac yn recordio gweminarau ac yn darparu'r recordiadau wedi hynny ar wefan a sianel YouTube Archwilio Cymru. Gall cyflwynwyr a chyfranogwyr gweminar rannu'r fideo gweminar gyda'u sefydliadau a'u cysylltiadau hefyd.

Yn ystod seminarau personol efallai y byddwn yn tynnu lluniau a chynhyrchu clipiau fideo byr o bob cyflwynydd ar ddiwrnod y digwyddiad, gan roi sylw i bwyntiau allweddol y cyflwyniad.

Yn ystod digwyddiadau a seminarau rhithwir, efallai y byddwn yn recordio'r cyfarfod cyfan ac efallai y bydd mod adnabod cynrychiolwyr a chyfranogwyr mewn recordiadau, drwy luniau, areithiau neu destun. Rydym yn defnyddio adnoddau fideo-gynadledda fel Zoom a Microsoft Teams i gynnal ein digwyddiadau. Os ydych chi'n cael mynediad at ddigwyddiad rhithwir efallai y bydd gweithredwyr y feddalwedd yn casglu gwybodaeth gennych chi a byddant yn ei defnyddio yn unol â'u hysbysiadau preifatrwydd.

Gall ffotograffau a fideos gael eu cyhoeddi ar wefan Archwilio Cymru a bydd clipiau fideo'n cael eu rhannu ar sianel YouTube Archwilio Cymru. Byddwn yn rhannu cyflwyniadau ac adnoddau o'r digwyddiad gyda chynrychiolwyr ac ar ein tudalen GPX ar wefan Archwilio Cymru hefyd.

Digwyddiadau personol

Os ydych chi'n siarad neu'n cyflwyno mewn digwyddiad a ddim am gael tynnu'ch llun neu eich recordio, **mae'n rhaid i chi ein hysbysu'n ysgrifenedig cyn y digwyddiad.**

Digwyddiadau rhithwir

Os ydych chi'n gyflwynydd neu'n gynrychiolydd mewn digwyddiad rhithwir, a ddim am gael eich recordio, **mae'n rhaid i chi ein hysbysu cyn y digwyddiad.**

Os yw'r cyfarfod yn cael ei recordio, bydd aelod o'r tîm GPX yn atgoffa'r holl gyfranogwyr ynglŷn â hyn ar ddechrau'r cyfarfod rhithwir, a fydd yn rhoi'r cyfle i chi newid eich gosodiadau (e.e. diffodd eich camera).

Mentimeter

Rydym yn defnyddio adnodd o'r enw Mentimeter fel rhan o'n digwyddiadau i gasglu a chyflwyno cwestiynau, barn ac adborth y gynulleidfa, a hwyluso gweithrediad Treialon Coffi ar Hap. Os ydych chi'n cymryd rhan, bydd eich cyfeiriad IP yn cael ei gadw gan Mentimeter am 30 diwrnod. Er y bydd eich cwestiynau'n cael eu gofyn yn ddienw, cofiwch ei bod yn bosibl y gellid eich adnabod drwy'r cwestiwn ei hun neu'r drafodaeth ddilynol ar y mater a godwyd. Os ydych chi'n darparu eich cyfeiriad e-bost i Mentimeter i weld y

sylwadau neu'r cwestiynau a godwyd yn ystod y digwyddiad (neu i greu cyfrif), byddwch yn gwneud hynny ar delerau ac amodau'r Mentimeter, sydd ar gael ar wefan Mentimeter.

Eich hawliau

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych chi hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol bresennol sy'n cael ei dal amdanoch chi ac i wrthwynebu prosesu data sy'n achosi niwed a phryder diangen a sylweddol.

I gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi neu i drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, ysgrifennwch at y Swyddog Gwybodaeth, Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ neu e-bostiwch infoofficer@archwilio.cymru. Gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad hwn hefyd.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych chi angen rhagor o wybodaeth am eich hawliau o dan gyfraith diogelu data neu os ydych chi am gwyno am y ffordd rydym yn ymdrin â'ch data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF, neu e-bostio casework@ico.gsi.gov.uk neu ffonio 01625 545745.